# Budd-daliadau a hawl i fudd-daliadau

## Canllaw i bobl ifanc

Adnodd 6 o 12

Mae'n bosib hoffet ti ddarllen yr adnoddau hyn hefyd:
- Budd-daliadau a Phethau i'w Hawlio - Addysg
- Cyllidebu
- Arian - Mae angen peth arna i!
- Arian - Rhoi rhywfaint o arian heibio

Prosiect Paratoi

Pan fyddi di'n gadael gofal, ti fydd yn rheoli dy arian dy hun. Byddi di'n cael cymorth gyda hyn, ond mae'n ddefnyddiol gwybod am yr arian rwyt ti'n gallu ei hawlio gan y Llywodraeth ac o fynonellau eraill neu'r pethau gallet ti eu cael am ddim

**Y Credyd Cynhwysol gallet ti ei gael (2021/2022)**

Mae'r canlynol yn enghraifft. Bydd yr union swm gei di yn dibynnu ar nifer o ffactorau

- Lwfans misol sylfaenol os wyt ti'n sengl **£344**
- Lwfans misol sylfaenol os wyt ti'n un o gwpl **£490.60 (£245.30 yr un)**

yna ...

- Os oes gen ti 1 plentyn **£237.08**
- Efallai cei di help i dalu'r rhent
- Efallai byddi di'n gallu hawlio mwy os oes gen ti anabledd neu gyflwr iechyd
- Efallai byddi di'n gallu hawlio hyd at 85% o'th gostau gofal plant os wyt ti'n gweithio ac mae gen ti gyfrifoldebau gofal plant

CREDYD CYNHWYSOL

# Credyd Cynhwysol

- Os wyt ti heb waith ac yn 18 oed neu'n hŷn, bydd angen i ti hawlio Credyd Cynhwysol
- Dyma'r arian bydd y Llywodraeth yn ei dalu i ti (budd-daliadau) i wneud yn siŵr bod arian gen ti i fyw arno
- Fel un sy'n gadael gofal, fe gei di ddechrau hawlio Credyd Cynhwysol 4-6 wythnos cyn dy ben-blwydd yn 18 oed
- I gael help gyda'th gais am Gredyd Cynhwysol, cysyllta â'r Ganolfan Byd Gwaith neu siarad â'th weithiwr cymdeithasol/gynghorydd personol.
- Hefyd, mae gan Citizens Advice Ynys Mon may also be able to support you with your claim **https://www.citizensadvice.org.uk/local/ynys-mon/**

- Yn aml bydd yna oedi o 4 neu 5 wythnos rhwng cyflwyno'r cais a derbyn yr arian.
- Mae modd gofyn am daliad ymlaen llaw, ond bydd hwn yn cael ei dynnu o'th daliad cyntaf
- Caiff Credyd Cynhwysol ei dalu'n syth i mewn i'th gyfrif banc. Os does dim cyfrif banc gen ti, siarad â'th weithiwr cymdeithasol, dy gynghorydd personol neu Cyngor ar Bopeth

# Treth y Cyngor

- Fel person ifanc sydd â phrofiad o ofal, fydd dim rhaid i ti dalu treth y cyngor os wyt ti'n byw ar dy ben dy hun.
- Bydd dy weithiwr cymdeithasol neu dy Ymgynghorydd Personol yn dweud wrth dîm tai Ynys Môn dy fod ti'n symud i mewn i'th fflat/dŷ dy hun, ac yn sicrhau dy fod ti ddim yn gorfod talu treth y cyngor

- Does dim angen i ti dalu treth y cyngor diolch i Erthygl 2 o Orchymyn y Dreth Gyngor (Anheddau Esempt) (Diwygio) (Cymru) 2019 - gan dy fod ti'n gofyn!
- Ond, os wyt ti'n byw gyda rhywun sydd heb brofiad o ofal, bydd rhaid i ti dalu treth y cyngor, ond fe gei di ostyngiad o 25%.

# Cymorth i Gynilo

- Os wyt ti'n derbyn Credyd Cynhwysol rwyt ti'n cael defnyddio Cymorth i Gynilo i gynilo rhywfaint o'th arian.
- Fe gei di gynilo rhwng £1 a £50 y mis
- Fe gei di dâl bonws ar ddiwedd yr ail a'r bedwaredd flwyddyn.
- Mae'r bonws yma'n werth 50c am bob £1 rwyt ti'n cynilo (os wyt ti heb gymryd arian o'r cyfrif), sy'n llawer uwch na'r llog byddet ti'n ei gael drwy gynilo mewn banc
- I wneud cais, cer i: **https://www.gov.uk/get-help-savings-low-income**

Fel rhan o Gredyd Cynhwysol, mae'r Llywodraeth wedi sefydlu rhaglen i helpu pobl ifanc i gael gwaith.

### Beth yw'r Rhaglen Cymorth Rhwymedigaeth Ieuenctid?

Rhaglen gymorth yw hon i bobl ifanc rhwng 18 ac 21 oed sy'n cyflwyno hawliad newydd am Gredyd Cynhwysol.

Mae'r cymorth yn cynnwys:

- Rhaglen Gweithgareddau Dwys;
- Adolygiadau Chwilio am Waith;
- Academïau Gwaith;
- Cyfnodau dan Hyfforddiant;
- Profiad Gwaith

Nod pob elfen o'r rhaglen yw gwella'r siawns y byddi di'n cael swydd

I gael rhagor o wybodaeth, cer i

**https://www.gov.uk/guidance/support-for-18-to-21-year-olds-claiming-universal-credit**

# RHAGLEN CYMORTH RHWYMEDIGAETH IEUENCTID CREDYD CYNHWYSOL

## Rhaglen Gweithgareddau Dwys

- Set o weithdai ac ymarferion fydd yn dy helpu i feddwl am dy nodau sgiliau a swydd;
- Bydd yn dy helpu i nodi'r hyfforddiant rwyt ti ei angen.
- Byddi'n cael cymorth hefyd gyda'th CV, sgiliau cyfweliad a gweithgareddau chwilio am waith

## Academïau Gwaith

- Dull o sicrhau bod gen ti'r sgiliau iawn i lenwi swyddi gwag yn dy ardal.
- Gall yr academi bara hyd at 6 wythnos ac mae'n cynnwys: hyfforddiant cyn cyflogaeth; lleoliad profiad gwaith; gwarant o gyfweliad swydd
- Bydd cymryd rhan mewn academi gwaith seiliedig ar sector yn gwella dy siawns o gael gwaith.

## Profiad Gwaith

- Os nad hyfforddiant seiliedig ar waith yw'r ffordd orau i'th helpu i gael gwaith, byddi di'n cael cynnig gwarant o brofiad gwaith
- Bydd hwn ar gael am gyfnod di-dor o 3 mis,
- Bydd yn dy helpu i gyflawni dy nodau ar gyfer swydd.
- Mae profiad gwaith yn wirfoddol, ond bydd yn datblygu dy sgiliau, dy hyder a'th CV.

## Adolygiadau Chwilio am Waith

- Cyfarfodydd gyda'th anogwr gwaith
- Cymorth ac anogaeth yn ystod y 6 mis nesaf
- Byddi'n cael cymorth pwrpasol ar gyfer dy anghenion unigol, a chymorth gydag unrhyw rwystrau allai fod yn dy atal rhag gweithio
- Mae'n bosib bydd dy anogwr gwaith yn dy gyfeirio at gymorth sydd ar gael yn lleol, er enghraifft: hyfforddiant sgiliau sylfaenol, hyfforddiant arall sy'n gysylltiedig â gwaith (gan gynnwys cyfnodau dan hyfforddiant a lleoliadau mewn academi gwaith seiliedig ar sector), profiad gwaith

## Cyfnodau dan Hyfforddiant

Mae cyfnodau dan hyfforddiant yn para am o leiaf 6 wythnos a gallan nhw bara am hyd at 6 mis. Maen nhw'n cynnwys:

- hyfforddiant paratoi am waith
- cymorth gyda Saesneg a mathemateg os bydd angen
- lleoliad profiad gwaith

Cadw dy rif Yswiriant Gwladol wrth law, mae'n debygol y bydd angen hwn arnat ti wrth ymuno â rhaglenni fel hon

# GRANTIAU CYFLEUSTODAU

### Beth gallet ti gael

Dyma enghraifft o'r hyn gallet ti gael, ond mae'n rhaid cyflwyno cais am bob un yn unigol a gall ffactorau gwahanol benderfynu a wyt ti'n cael yr arian neu beidio

- Cynllun Disgownt Cartref Cynnes **£140**
- Taliad Tywydd Oer **£25** (am bob 7 diwrnod)
- Cynllun HelpU Dŵr Cymru **£202.07**

Mae byw yn dy gartref dy hun yn gallu bod yn eitha drud. Mae'r dudalen hon yn awgrymu pethau a allai helpu.

## Cynllun Disgownt Cartref Cynnes

- Os wyt ti ar incwm isel, falle gallet ti wneud cais am y cynllun hwn.
- Rhaid i ti gyflwyno cais trwy dy gyflenwr ynni (edrych ar y bil i weld pwy yw hwnnw)
- Yn anffodus, dydy pob cyflenwr ddim yn cynnig y cynllun hwn. Gwiria pwy sy'n ei gynnig:

**https://www.gov.uk/the-warm-home-discount-scheme/energy-suppliers**

Mae angen i ti wneud cais yn gynnar oherwydd hyn a hyn o arian sydd yn y gronfa



## Cynllun HelpU Dŵr Cymru

- Os wyt ti ar incwm isel, mae'n bosib i ti wneud cais am y cynllun hwn.
- Mae meini prawf manwl yn berthnasol
- **https://www.dwrcymru.com/cy-GB/My-Account/Helpu.aspx**



## Taliad Tywydd Oer

- Os wyt ti'n ddi-waith AC mae cyflwr iechyd gennyt a/neu blentyn o dan 5 oed, byddi di'n cael y taliad yma
- Caiff y taliad ei wneud rhwng 1 Tachwedd a 31 Mawrth os bydd y tymheredd yn gostwng i sero (neu'n is na hynny) am saith diwrnod neu fwy

### HELP!!

I gael help/cyngor i wneud cais am y rhain: gall Cyngor ar Bopeth Ynys Môn dy helpu.
Cysyllta â:. 03444 111444,
angela.kenney@ynysmoncab.org.uk
NEU siarad â'th swyddog cynnal tenantiaeth.

# CYFLEUSTODAU

**Rhifau Argyfwng**

Os bydd argyfwng o ran dy gyfleustodau, cysyllta â'r canlynol:

- Dŵr Cymru - 0800 052 0130
- Trydan (Western Power)- 105
- Nwy yn gollwng (Wales and West Utilities) 0800 111 999

Mae byw yn dy gartref dy hun yn gallu bod yn eitha drud. Mae'r dudalen yma'n awgrymu rhai pethau allai helpu

## Cofrestr Gwasanaethau â Blaenoriaeth

- Os oes gen ti blentyn dan 5 neu os wyt ti'n berson bregus, mae'n bosib i ti gofrestru gyda'r gwasanaeth hwn
- Byddi di'n cael gwybod ymlaen llaw am doriadau trydan
- Byddi di'n flaenoriaeth ar gyfer cymorth mewn argyfwng
- Biliau sy'n addas i'th anghenion
- I wneud cais:
- Dŵr - 0800 052 0145

  **www.dwrcymru.com/cy-GB/Self-Service/Other/Priority-Services.aspx**
- Trydan - 0800 096 3080

  **www.westernpower.co.uk/customers-and-community/priority-services/priority-services-register**
- Nwy - 02920 278558

  **wwutilities.co.uk/services/safe-warm/priority-customers/priority-services-register/**
- Dylet ti gysylltu â'th gyflenwr ynni hefyd i roi gwybod iddyn nhw am dy anghenion ychwanegol



## Cronfa Cymorth Cwsmeriaid

- Cynllun mae Dŵr Cymru yn ei gynnig os wyt ti'n cael trafferth cadw i fyny â'th fil dŵr
- Bydd hwn yn gwneud y taliadau'n haws eu rheoli
- Rhandaliadau llai a realistig i'w talu
- Os byddi'n parhau â'r taliadau am 6 mis, caiff dy ddyled ei haneru
- Os byddi'n parhau â'r taliadau am 6 mis arall, bydd dy ddyled wedi'i chlirio

Siarad â'th gyflenwr ynni ar unwaith os wyt ti'n cael trafferth talu dy filiau

## Cymorth Cartref Cynnes

- Os wyt ti ar incwm isel neu os yw dy gostau gwresogi'n uchel iawn, gallet ti wneud cais i ymuno â'r cynllun hwn
- Gallan nhw helpu gyda chost inswleiddio neu foeler newydd
- I gael rhagor o wybodaeth, ffonia Cymru Gynnes 01656 747623 neu
- **https://www.warmwest.org.uk/gas-connection-grants/**

## Crynodeb o beth gallet ti gael

Isod mae crynodeb o beth gallet ti gael os wyt ti dros 18, ac yn byw'n lled-annibynnol neu'n annibynnol, ond bydd beth gei di'n aml yn dibynnu ar dy anghenion.

- Grant Gadael Gofal- **hyd at £1500**
- Blaendaliad llety- **un mis o rent**
- Arian Pen-blwydd/Nadolig/gŵyl grefyddol- **arian/taleb**
- Pasbort/Tystysgrif Geni- **cost cyflwyno cais**
- Canolfan Hamdden- **mynediad AM DDIM** am flwyddyn
- Gyrru- **peth arian tuag at wersi** OS bydd angen
- Dillad- **arian** ar gyfer dillad cyfweliad

# HELP GAN GYNGOR YNYS MÔN

Os wyt ti'n derbyn cefnogaeth gan dîm Gadael Gofal Ynys Môn, byddi di'n gallu cael peth cymorth ariannol ganddyn nhw os wyt ti'n byw'n lled-annibynnol neu'n annibynnol

## Tai

- Os wyt ti'n symud i mewn i'th fflat/dŷ dy hun, bydd y cyngor yn rhoi grant i ti
- Yr enw ar hyn yw'r Grant Gadael Gofal
- Byddi di'n cael hyd at £1500
- Pwrpas yr arian yma yw helpu gyda hanfodion fel celfi, offer coginio, oergell etc.
- Byddan nhw hefyd yn helpu gyda blaendal os bydd angen

Mae hawl gen ti i gefnogaeth hefyd os wyt ti'n mynd i addysg uwch. Mae rhagor o wybodaeth yn ein hadnodd **'Budd-daliadau a Phethau rwyt ti'n gallu eu hawlio - Addysg'**

## Prawf Adnabod

Os nad oes gen ti un, bydd yr Awdurdod Lleol yn talu am gost:

- Tystysgrif geni
- Pasbort

Ond dim ond unwaith byddi di'n gallu gwneud cais am hyn, felly gofala am dy ddogfennau ar ôl eu cael nhw!!

## Hamdden

- Os wyt ti'n byw ar Ynys Môn byddi di'n cael 12 mis o aelodaeth AM DDIM mewn canolfannau hamdden lleol.
- Os wyt ti'n byw tu allan i'r sir, gofyn i'th ymgynghorydd personol wyt ti'n gallu cael aelodaeth debyg lle rwyt ti'n byw.

## Pen-blwydd Hapus!

- Pan fyddi di mewn lleoliad, bydd y gofalwr maeth neu'r cartref plant yn rhoi anrheg pen-blwydd i ti.
- Ar ôl i ti symud allan o leoliad, bydd yr awdurdod lleol yn rhoi arian i ti ar gyfer pob pen-blwydd ac;
- arian ar gyfer y Nadolig/gŵyl grefyddol

## Gyrru

- Os bydd **angen** i ti yrru ar gyfer swydd bosibl neu am reswm addas arall, bydd Ynys Môn yn talu peth arian tuag at gost gwersi gyrru; prawf theori, cost trwydded, cost prawf gyrru

I gael rhagor o wybodaeth am y pethau byddi di'n eu cael gan y Cyngor, gofyn i'th ymgynghorydd personol roi copi o'r ddogfen **'Canllaw Person Ifanc i Gymorth a Chefnogaeth Ariannol'** i ti

## Dillad

- Os wyt ti dan 18 oed byddi di'n cael talebau i'w gwario ar ddillad/esgidiau
- Os wyt ti dros 18 oed, rwyt ti'n gallu gofyn am arian tuag at gost dillad ar gyfer cyfweliad

## Cyngor am Bopeth

Ffynhonnell arall o gefnogaeth yw Cyngor ar Bopeth Ynys Môn, sy'n cynnig:

- Cyngor ar Ddyledion
- Cefnogaeth gyda Budd-daliadau
- Cyngor ar ddefnyddio ynni
- Cyngor ar faterion defnyddwyr (nwyddau rwyt ti wedi eu prynu)

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn **https://www.citizensadvice.org.uk/local/ynys-mon/**

# Y GRANTIAU SYDD AR GAEL

Weithiau, mae angen pethau arnat ti nawr ond dwyt ti ddim yn gallu fforddio nhw.
Os dyna'r sefyllfa, falle gallet ti wneud cais am rywfaint o arian ...

## Gronfa Dydd Gŵyl Dewi

- Mae'r arian yma ar gael i'th helpu i fyw bywyd annibynnol a llwyddiannus
- Ar y cychwyn, roedd yr awgrymiadau ar gyfer defnyddio'r arian yn cynnwys: gwersi gyrru, dillad ar gyfer cyfweliadau, offer ar gyfer gwaith/coleg ac ati
- Y cyngor lleol sy'n penderfynu sut bydd yr arian yn cael ei wario




Os byddi di'n cyflwyno cais i Gronfa Dydd Gŵyl Dewi, gofala ddweud sut bydd yr arian yn dy helpu di a'th lesiant

## Cronfa Cymorth Dewisol

- Cronfa arall sydd ar gael trwy'r Cyngor yw hon
- Efallai byddi di'n gallu gwneud cais i'r Gronfa Cymorth mewn Argyfwng
- Fel mae'r enw yn awgrymu, cronfa ar gyfer argyfyngau yw hwn, felly os wyt ti wedi colli dy arian neu'n aros i arian ddod i mewn ond bod angen rhywbeth nawr

**https://llyw.cymru/y-gronfa-cymorth-dewisol-ffurlen-gais**

### HELP!!

I gael cymorth neu gyngor i wneud cais, siarad â'th Gynghorydd Personol

## Capston Care Leavers Trust

- Maen nhw'n darparu grantiau ar gyfer eitemau hanfodol fel peiriant golchi dillad neu soffa
- Mae'r ymddiriedolaeth yn cwmpasu Cymru a Lloegr felly swm cyfyngedig o arian sydd ar gael
- Rhaid i ti ddangos dy fod wedi gwneud cais am arian o fannau eraill cyn cyflwyno cais iddyn nhw

**Dy iechyd**

I gael rhagor o wybodaeth am y cymorth mae gen ti hawl i'w gael o ran dy iechyd, edrych ar ganllawiau Plant yng Nghymru ar asesiadau a chynlluniau iechyd.
**http://www.plantyngnghymru.org.uk/adnoddau-2/plant-syn-derbyn-gofal/**

# PETHAU AM DDIM

Mae pawb wrth eu bodd da rhywbeth am ddim, a byddai'n wych cael mwy ohonyn nhw! Dyma ambell enghraifft sy'n ymwneud â'th iechyd ...



## Triniaeth Ddeintyddol

Os bydd unrhyw rai o'r isod yn berthnasol i ti, bydd dy driniaeth ddeintyddol am ddim:

- rwyt ti'n 18 oed ac mewn addysg amser llawn
- rwyt ti'n feichiog neu wedi cael babi yn y 12 mis diwethaf

### Wyddet ti?

Os wyt ti'n gweithio ac yn gorfod defnyddio cyfrifiadur am lawer o'r amser yn y gwaith, mae hawl gen ti i gael prawf llygaid am ddim gan bwy bynnag sy'n dy gyflogi.

Rhaid iddyn nhw dalu hefyd am y sbectol mae angen i ti ddefnyddio wrth weithio ar y cyfrifiadur

**https://www.hse.gov.uk/msd/dse/eye-tests.htm**

Siarad â'th Gynghorydd Personol ynglŷn â chwblhau modiwl dysgu wedi'i achredu fel::

- Sgiliau Byw'n Annibynnol
- Cryfhau Hyder

## Prawf llygaid

Rwyt ti'n gallu cael prawf llygaid am ddim os:

- wyt ti'n 16, 17 neu'n 18 oed ac mewn addysg amser llawn
- wyt ti'n cael Credyd Cynhwysol

Hola dy nyrs; meddyg neu Gynghorydd Personol i wneud cais am driniaeth am ddim

## Llesiant

- Mae edrych ar ôl dy iechyd meddwl a llesiant yn bwysig
- I gael cynghorion ac adnoddau am ddim, cer i
- **https://platfform.org/cy/project/pobl-ifanc/**
- **https://youngminds.org.uk/**